

GRUFFYDD ap LLYWELYN (bu farw 1244), tywysog gogledd Cymru

Enw: Gruffydd ap Llywelyn
Dyddiad marw: 1244
Priod: Senena ferch Caradog
Plentyn: Gwladus ferch Gruffudd ap Llywelyn
Plentyn: Rhodri ap Gruffydd
Plentyn: Owain ap Gruffydd
Plentyn: Llywelyn ap Gruffudd
Plentyn: Dafydd ap Gruffydd
Rhiant: Tangwystl ferch Llywarch Goch
Rhiant: Llywelyn ap Iorwerth
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog gogledd Cymru
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

Mab anghyfreithlon [Llywelyn I](#) a Tangwystl, merch Llywarch Goch, Rhos; ganwyd rywbryd cyn priodas ei dad â [Joan](#) yn 1206. Y cyfeiriad cyntaf ato ydyw fel un o'r gwystlon a roddwyd i John yn 1211; yr oedd yn parhau yn garcharor yn Awst 1213, eithr fe'i rhyddhawyd yn y setlo cyffredinol a wnaethpwyd yn 1215. Yr oedd wrth reddf yn un na ellid dibynnu arno ac yn bengryf, ac nid oedd yn ôl o ddangos ei fod yn llidid oblegid mai hanner-brawd, [David II](#), mab [Joan](#), a edrychid arno i fod yn unig olynnydd i [Llywelyn](#). Yng Nghymru 'r Canol Oesoedd, gallai mab cydnabyddedig, serch ei fod yn anghyfreithlon yn ôl y safonau arferol, obeithio herio un arall a bod yn weddol sicr y câi gymorth y cyhoedd yn hynny. Nid oedd ym mwriad [Llywelyn](#), fodd bynnag, nacâu rhoddi iddo awdurdod yn rhyw ran o'r wlad os profai y gallai gydweithredu. Er iddo ddioddef ei garcharu yn Neganwy am gyfnod hir - o 1228 hyd 1234 - wedi iddo golli arglwyddiaethau Ardudwy a Meirionnydd, fe'i gwnaethpwyd yn y diwedd yn arglwydd Ll n a rhoddwyd iddo diriogaeth helaeth Powys Uchaf a fuasai ym meddiant [Llywelyn](#) wedi marw [Gwenwynwyn](#).

Fel y digwyddodd, [David](#) ei hunan, yn ystod blynyddoedd olaf [Llywelyn](#), pan oedd hwnnw'n egwan, a roes y ddyrnod olaf dros egwyddorion cyfreithlondeb geni a hawl y cyntafanedig, gan gymryd holl diroedd Gruffydd oddi arno a'i garcharu ef ac [Owain Goch](#), ei fab hynaf, yng Nghricieth. Digwyddodd hyn ychydig cyn i [Llywelyn](#) farw (Ebrill 1240) neu yn union wedi hynny. Ar 12 Awst 1241 gwnaeth Senena, gwraig Gruffydd, gytundeb â Harri III, a threfnu i ryddhau ei gwr o'r carchar ac adfer ei diroedd iddo. Pan fu raid i [David](#), bythefnos yn ddiweddarach, ymostwng i'r brenin yn Gwern Eigrion, dim ond rhan gyntaf y cytundeb a gyflawnwyd, oblegid gwnaethpwyd Gruffydd yn garcharor yn awr yn Nhwr Llundain; yno, am dair blynedd, cafodd gaethiwed na fu'n galed - yng ngwmni ei wraig a rhai o'u plant ac yn cael ei ddefnyddio fel gwystl yn y chwarae gwleidyddol rhwng Lloegr a Chymru. Bu diwedd trist i'w ymdrech i ddianc ar 1 Mawrth 1244. Bu iddo bedwar mab - [Owain Goch](#), [Llywelyn 'ein llyw olaf'](#), [David III](#), a Rhodri - ac un ferch, Gwladus, a briododd Rhys ap Rhys Mechyll. Yn 1248 cludwyd ei weddillion i Gymru a'u gosod i orffwys yn Aberconwy.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Littere Wallie (1940)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Wynnstay Estate Records: Charters of the Abbey of Ystrad Marchell: Confirmation by Gruffudd ap Llywelyn of previous charters, 1226](#)

Erthygl Wicipedia: [Gruffudd ap Llywelyn Fawr](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1398384](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

